Polisi Gorfodi – Sylwadau Llywodraeth Cymru ar y ddogfen ddrafft Comisiynydd y Gymraeg.

1 Materion sydd angen eich sylw

Rhif	Rhif y paragraff yn y Polisi Gorfodi	Sylwadau	Ymateb
1.1	1.2	Rydych wedi diffinio 'person perthnasol' yn y Polisi mewn perthynas ag adrannau 63(5), 64(5) ac Atodlen 2(5) o'r Mesur. Gan nad yw person perthnasol adran 63 o reidrwydd yn mynd i orfod cydymffurfio â safonau mi fyddai'n fwy clir petai person perthnasol, at ddibenion y Polisi, yn cael ei ddiffinio fel person y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad mewn perthynas a'r Gymraeg, heb gyfeirio at adrannau 63 a 64 o'r Mesur. Gellid dileu troednodyn 1.	Wedi gwneud
1.2	1.2 a troednodyn 2	Mae'r diffiniad o 'berson' yn nhroednodyn 2 yn cynnwys 'unrhyw unigolyn neu endid sydd a phersonoliaeth gyfreithiol' ac felly yn fwy cul nag yn y Mesur. Ai dyma yw eich bwriad? Er mwyn adlewyrchu geiriad y Ddeddf Dehongli 1978 sy'n diffinio 'person' at ddibenion cyffredinol, yn cynnwys y Mesur, gellid defnyddio 'neu gorff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol' yn lle endid sydd a phersonoliaeth gyfreithiol.	Wedi gwneud
1.3	2.3	Dywedir bod Hysbysiadau Cydymffurfio yn 'manylu' ar y safonau penodol y mae'n ofynnol i'r gorff	Wedi newid i 'pennu'

		gydymffurfio â hwy. Gan mai Hysbysiadau Cydymffurfio sy'n darparu pa safonau sy'n rhaid i gorff gydymffurfio â hwy, byddai defnyddio 'darparu' neu 'pennu' yn hytrach na 'manylu' yn well yma. Mae defnyddio'r gair manylu yn awgrymu bod cam arall sy'n dweud pa safonau sy'n rhaid cydymffurfio â nhw. Mae'r pwynt yma yn codi mewn perthynas a'r diffiniad o Hysbysiad Cydymffurfio yn y rhestr termau hefyd.	
1.4	3.8	Dylid ei gwneud hi'n glir nad oes angen caniatâd y Tribiwnlys os apelir yn unol ag adran 99 o'r Mesur.	Wedi gwneud
1.5	4.12	Ai'r bwriad yma yw rhwystro'r Comisiynydd rhag arfer y disgresiwn yn unol ag adran 93(8)? Mae'r geiriad yn awgrymu y bydd y Comisiynydd yn cau <u>bob</u> cwyn o'r fath er bod adran 93(8) yn darparu y gall y Comisiynydd ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad os yw'r gwyn yn wacsaw neu'n flinderus neu os tynnu'r y gwyn yn ôl. Mae adran 103(8) o'r Mesur hefyd yn berthnasol yma.	Wedi ychwanegu brawddeg yn cwrdd y gofyn.
1.6	4.15, 4.16, 4.17 a 4.18	Mae adran 93 o'r Mesur yn darparu bod <u>rhaid</u> ystyried cynnal ymchwiliad o dan adran 71 lle bo cwyn ddilys. Mae cwyn yn un ddilys lle bo'r amodau yn adran 93(3) i (6) o'r Mesur wedi eu bodloni. Nid oes cyfeiriad at drafodaeth gyda'r person perthnasol cyn penderfynu ystyried. Ai'r pwynt yma yw y byddai'r Comisiynydd (yn unol a'r Mesur) yn ystyried cynnal ymchwiliad pan dderbynnir cwyn dilys. Fel rhan o'r ystyriaeth i gynnal ymchwiliad byddai'n rhoi cyfle i'r person perthnasol ddarparu gwybodaeth a byddai'r wybodaeth a dderbynnir (neu unrhyw ddiffyg i ddarparu) yn	Wedi ail weithio a dileu paragraffau er mwyn gwneud yr ystyr cyffredinol yn fwy eglur. Wedi symud is bennawd er eglurder. Gofyn am wybodaeth er mwyn gallu dilysu mewn modd ymarferol mae'r Comisiynydd cyn penderfynu ymchwilio. e.e. weithiau derbynnir cwyn am arwyddion ac mae'n anodd gwybod pa sefydliad yn union sy'n gyfrifol am arwydd mewn man cyhoeddus. Y tueddiad yw honni mai'r awdurdod

		ffactorau a fyddai'n cynorthwyo'r Comisiynydd i ddod i benderfyniad os dylid cynnal ymchwiliad o dan adran 71. Fe fyddai'n ddefnyddiol petaech yn gallu cadarnhau'r bwriad yma. Os mai dyma'r bwriad, yna bydd angen newid paragraffau 4.15, 4.16, 4.17, 4.18. Dyw hi ddim yn glir sut byddai 4.16 yn gweithio os newidir fel hyn. Fe all adran 103(7) o'r Mesur fod yn berthnasol yn y cyd-destun yma. Fe fyddai hefyd yn ddefnyddiol petaech yn gallu darparu gwybodaeth ar sut rydych yn bwriadu sicrhau nad yw'r gofyn am wybodaeth cyn penderfynu cynnal ymchwiliad yn ei hun yn troi mewn i ymchwiliad a sut y byddwch yn sicrhau nad ydych yn dod i gasgliad am yr ymddygiad honedig cyn cynnal ymchwiliad llawn.	lleol yw'r corff cyfrifol ond yn aml iawn gall arwydd fod yn gyfrifoldeb i gwmni dŵr, corff preifat etc. Nid oes trafodaeth gyda'r sefydliad ar y pwynt hwn nac ymchwiliad o unrhyw fath. Er mwyn ei gwneud yn amlwg nad ymchwiliad anffurfiol sydd ar fynd mae'r cyfnod yn cael ei gwtogi i 10 niwrnod gwaith.
1.7	4.18	Dywedir 'Lle bydd y dystiolaeth yn golygu nad oes gan y Comisiynydd amheuaeth o fethiant person perthnasol i gydymffurfio â safon bydd y Comisiynydd yn penderfynu peidio â chynnal ymchwiliad statudol'. Os nad oes amheuaeth oni ddylid cynnal ymchwiliad? Yn ogystal, pa fath o dystiolaeth fyddai'n ddigonol i sicrhau nad oes amheuaeth?	Gweler sylw blaenorol.
1.8	5.4	Os byddwch yn gwneud newidiadau i baragraffau 4.15, 4.16, 4.17 a 4.18 mae'n bosib y bydd angen gwneud newid yma hefyd.	Wedi gwneud.
1.9	6.17	Fedrwch chi esbonio ym mha amgylchiadau y bydd y	Dim newid.

		bwriad i 'fynd mewn heb roi rhybudd' yn debygol o fod yn rhesymol? Mae paragraff 12(4) o Atodlen 10 i'r Mesur yn darparu nad yw'r pŵer yn caniatáu i'r Comisiynydd fynd i mewn os yw'n afresymol i wneud hynny.	Mae Atodlen 10 y Mesur ac yn benodol adran 12 (3) a (4) yn sôn am rai cyfyngiadau ar allu'r Comisiynydd i fynd i mewn i sefydliad. Mae'r cysyniad o ymweliad i leoliad sydd 'o dan reolaeth' sefydliadol yn un ystyriaeth. Yn ail nodir afresymoldeb mynd i mewn i fangre ar 'adeg benodol' (particular time). Nid oes son am 'amgylchiadau'. Er mwyn mynd i'r afael gyda afresymoldeb mynd i mewn i ymchwilio ar adeg afresymol mae'r Comisiynydd yn nodi yn y polisi y bydd yn ceisio rhoi rhybudd rhesymol. Mae'r Comisiynydd yn cyfeirio hefyd at roi cyfle i sefydliad fod â rhywun o'r sefydliad i fod yn gyfrifol, ar ran y sefydliad, am yr ymweliad, a sicrhau ei fod o dan reolaeth. Nid oes angen gwneud dim newid i'r paragraff hwn ym marn y Comisiynydd. Mae'r angen i Gomisiynydd y Gymraeg ymddwyn yn rhesymol ym mhopeth y mae'n ei wneud yn ddisgwyliad cyffredinol, fel sydd ar bob corff cyhoeddus.
1.10	Troednodyn 29	Rydym yn ystyried eich cais i ychwanegu Archwilydd Cyffredinol Cymru i adran 21 y Mesur. Er mwyn sicrhau bod y geiriad yn dal unrhyw ombwdsmyn neu gomisiynwyr a ychwanegir i'r adran yn y dyfodol, fe ellid cynnwys y canlynol ar ddiwedd troednodyn 29 "ar hyn o bryd. Fe all Gweinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr yma o Ombwdsmyn neu Gomisiynwyr drwy orchymyn."	Wedi gwneud.

2(a) Materion y gofynnir am fwy o wybodaeth arnynt

Rhif	Rhif y paragraff yn y Polisi Gorfodi	Sylwadau	Ymateb
2.1	2.2	Oes rheswm pam mai dim ond 2 o'r 4 egwyddor yn adran 3(3) o'r Mesur y cyfeirir ato?	Defnyddiwyd y ddwy egwyddor a enwir yn y Mesur sef 3(c) a (d) sydd hefyd yn amlwg yn y diffiniadau a geir yn y 5 dosbarth o safonau. Does dim gwrthwynebiad i ychwanegu cyfeiriadau at 3(a) ac (b) fodd bynnag.
2.2	2.3	Ydy peidio sôn am bŵer y Comisiynydd i'w gwneud hi'n ofynnol i berson gydymffurfio mewn rhai amgylchiadau (ond ddim rhai eraill), a rhai ardaloedd (ond ddim rhai eraill) yn fwriadol? (adran 45(2) o'r Mesur).	Mae'r troednodyn yn cwrdd y gofyn.
2.3	2.5	Fedrwch chi esbonio'r bwriad ym mharagraff 2.5 a'r geiriad "Gall hynny gynnwys safon mae'n ofynnol i'r person perthnasol gydymffurfio â hi, yn gam gorfodi a osodwyd arno neu'n gytundeb setlo yr ymrwymwyd iddo." Cymerwn bod 'hynny' yn cyfeirio at y dyletswyddau sy'n rhaid i berson gydymffurfio â hwy ac y gall y Comisiynydd eu rheoleiddio. Nid yw hi'n glir i ni pam bod yr holl gamau gorfodi a chytundeb setlo wedi eu rhestru yma pan na restrir hwy yn adran 71, ac ni chyfeirir at gynllun	Egluro'n gyffredinol ac eang y 3 math o sefyllfa lle gall Comisiynydd y Gymraeg osod rhyw fath o ofyniad ar sefydliad a wneir yma e.e. safonau (drwy hysbysiad cydymffurfio); camau gorfodi (ond heb fanylu ar yr amrediad ohonynt yn y man hwn); cytundeb setlo (nad yw yn gam gorfodi). Mae'r testun hwn yn yr adran 'cyflwyniad' ac nid oedd awydd i fod yn rhy fanwl a thechnegol ar y pwynt hwn.

		gweithredu? Ai'r bwriad yw cyfeirio at y dyletswyddau y gall y Comisiynydd eu rheoleiddio [y rhai a restrir yn 71(2)] a dweud y gall y Comisiynydd hefyd gymryd camau i orfodi unrhyw gam gorfodi a osodwyd neu gytundeb setlo?	
2.4	Adran 3 Egwyddorion Rheoleiddio	Er bod adran 95(4) o'r Mesur yn rhoi hawl i berson i apelio i'r Tribiwnlys ar y sail bod cam gorfodi yn afresymol neu'n anghymesur, nid oes cyfeiriad at resymoldeb yn yr adran hon o'r polisi. Ydy hyn yn fwriadol?	Mae'n fwriadol. Yma cyfeirio a wneir at egwyddorion generig sy'n berthnasol i reoleiddwyr ben baladr ac nid yw'r egwyddorion yn rhai sydd ynghlwm i'r Mesur a'r Comisiynydd ei hun. Mae'r egwyddorion yn rhai cydnabyddedig a adweinir yn y maes rheoleiddio. Nid yw cyfeirio at yr egwyddorion hyn yn effeithio o gwbl ar yr angen i fod yn rhesymol. Rhaid i bob sefydliad cyhoeddus arfer rhesymoldeb.
2.5	3.6	Beth a olygir gan 'ddwysáu yr ymateb'?	Wedi dileu'r geiriad.
2.6	4.1	Fedrwch chi esbonio beth olygir gan 'drwy ddulliau eraill?'	Gall dulliau eraill gynnwys gwneud defnydd o bwerau eraill perthnasol a dilys o eiddo'r Comisiynydd o dan y Mesur e.e. pe byddai pwynt o gyfraith yn dod i'r amlwg mewn cwyn nid yw'n amhosibl dirnad y *gallasai* fod yn briodol defnyddio adrannau 8 – 10 Mesur y Gymraeg er mwyn cael eglurder ar bwynt o gyfraith drwy'r llysoedd.
2.7	Troednodyn 13	Nid yw'n glir pam y cyfeirir at adran 123(4)(e) mewn cysylltiad â chwynion o dan adran 93.	Wedi ei addasu.
2.8	6.11	Fedrwch chi esbonio pam eich bod yn bwriadu cyfyngu yr amgylchiadau lle bydd y Comisiynydd yn	Nid oes bwriad cyfyngu . Wedi newid.

		talu? Mae paragraff 6(1) o Atodlen 10 o'r Mesur yn gymwys lle bo person wedi darparu gwybodaeth, cyflwyno dogfennau neu roi tystiolaeth lafar. Does dim cyfeiriad at gydymffurfio a'r hysbysiad tystiolaeth. Fe all person ddarparu gwybodaeth etc heb dderbyn hysbysiad tystiolaeth. Mae'r polisi yn cyfeirio at dalu rhai sydd wedi 'cydymffurfio â hysbysiad tystiolaeth a roddir iddo' yn unig a nid rhai sydd wedi darparu gwybodaeth heb hysbysiad tystiolaeth.	
2.9	6.23 a 6.24	Nid oes cyfeiriad at y ddarpariaeth yn adran 85(2) – rhaid i'r Comisiynydd roi hysbysiad o'r dyfarniad y mae'n bwriadu ei wneud. Cyfeirir at y cynigion ynghlwm a'r dyfarniad ond nid y dyfarniad ei hyn. Oes rheswm am hyn? Os mai dyma ddiben 6.24 nid yw'n glir o safbwynt cronoleg gan bod 6.23 yn sôn am gopïau terfynol.	Wedi ail osod paragraffau'n gronolegol a diwygio.
2.10	7.7 a 7.21	Cyfeirir at hawl y person perthnasol i apelio yn 7.21. Ni sonnir am apelio wrth drafod y camau eraill oherwydd 7.7. Oes rheswm pam y tynnir sylw penodol at apelio yn 7.21?	Wedi dileu'r sylw.
2.11	8.3	Fedrwch chi egluro pam eich bod wedi categoreiddio y dulliau yn y modd y gwneir yn y paragraff yma? Onid yw cosb sifil yn cwympo mewn i'r ail categori (gweler hefyd adran 110 o'r Mesur)?	Mae geiriad wedi ei ychwanegu er mwyn cyplysu is adran (II) gyda (III).
2.12	8.5	Fedrwch chi egluro pam fod 'peidio â gweithredu	Mae adran 77(2) yn cynnwys hyn fel opsiwn ac felly

		ymhellach' wedi ei gategoreiddio o dan y pennawd 'adfer cydymffurfiaeth'?	cafodd ei gynnwys er mwyn adlewyrchu'r Mesur yn llawn.
2.13	9.1	Oes rheswm pam nad yw'r paragraff yn cyfeirio at swm y gosb yn unol ag adran 83(1) o'r Mesur?	Wedi addasu.
2.14	10.5	Oes rheswm pam na gyfeirir at gydymffurfiaeth â chynllun gweithredu ar ôl 'cydymffurfio â'r cam gorfodi' yn y 4ydd llinell? Mae paratoi cynllun gweithredu yn gam gorfodi, ond gellid hefyd gorfodi diffyg cydymffurfiaeth a'r cynllun hwnnw (adran 89(2) o'r Mesur). Yn ogystal, ni all y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn parthed cosb sifil (sy'n gam gorfodi) – dyled i'r Comisiynydd yw hwn yn unol ag adran 83(5) o'r Mesur.	Wedi diwygio'r paragraff gan amlygu'r pwynt a nodir gan y Llywodraeth er mwyn osgoi aneglurder.
2.15	10.6	Yma cyfeirir at bŵer y Comisiynydd i gynnal ymchwiliad statudol pellach i fethiant person perthnasol i gydymffurfio a cham gorfodi – sy'n cynnwys cosb sifil (paragraff 7.5(ii)). Dim ond y materion a restrir yn adran 71(2) o'r Mesur y gall y Comisiynydd gynnal ymchwiliad iddo - ac nid yw'n cynnwys cosb sifil. Mae hyn hefyd yn effeithio ar y diffiniad o 'ymchwiliad statudol' yn y rhestr termau.	Wedi diwygio'r paragraff gan amlygu'r pwynt a nodir gan y Llywodraeth er mwyn osgoi aneglurder.
2.16	11.2 a 11.3	Mae'r geiriau 'sy'n ymwneud â' yn y Mesur yn ehangach na'r geiriad yn y Polisi sy'n cyfeirio at 'fod yn destun'. All y Comisiynydd esbonio'r bwriad yma? Os nad oedd bwriad penodol yma, fe ellid newid i geiriad i adlewyrchu'r Mesur, a newid 'i'r un mater' ym	Wedi addasu.

		mharagraff 11.3 i ‘i fater cysylltiedig’.	

2(b) Materion sydd angen ei gwirio/cywiro

Rhif	Rhif y paragraff yn y Polisi Gorfodi	Sylwadau	Ymateb
2.17	3.2	Dylid cyfeirio at adran 22 nid 23.	Cytuno
2.18	4.10	Ai paragraffau 4.4 - 4.7 a olygir nid 4.2 – 4.8?	Cytuno, wedi addasu.
2.18	Troednodyn 16	Dylai’r cyfeirnod ddarllen - Atodlen 10, paragraff 11(1)(b) Mesur y Gymraeg.	Wedi gwneud
2.19	Troednodyn 17	Dylai’r cyfeirnod ddarllen – Atodlen 10, paragraff 12(3)(a) Mesur y Gymraeg.	Wedi gwneud
2.20	Troednodyn 26	Ai adran 92(2) a olygir yma nid adran 88(3)?	Cytuno
2.21	11.4	Gellid dileu y gair ’wybodaeth’ o’r drydedd linell.	Wedi gwneud.

3 Sylwadau ac awgrymiadau arall

Rhif	Rhif y paragraff yn y Polisi Gorfodi	Sylwadau	Ymateb
3.1	2.4	Cyfeirir at berson yn gorfod cydymffurfio gyda	Dim newid. Adran gyflwyniadol sydd yma ac nid

		safonau tra bod Hysbysiad Cydymffurfio mewn grym. Mae adran 25 o'r Mesur yn cynnwys nifer o amodau – a rhaid iddynt i gyd gael eu diwallu er mwyn i berson orfod cydymffurfio. A fyddai'n gliriach adlewyrchu hynny?	ydym am gynnwys manylion technegol yma.
3.2	2.6	Ym mhwyntiau bwled 2 a 4 sonnir am gydymffurfiaeth, nid yw'r polisi yn glir y gall hyn fod yn fwy na chydymffurfio â safon yn unol ag adran 71(2) o'r Mesur. Ym mhwynt bwled 5 cyfeirir at 'defnyddio pwerau er mwyn atal methiannau i gydymffurfio...' ac ym mhwynt bwled 6 cyfeirir at gosbau sifil. Gan mae un ymhlith nifer o arfau yw cosb sifil, nid yw'n glir pam y tynnir sylw at y cam gorfodi hwn yn fwy nag un o'r lleill. Ym mhwynt bwled 7 sonnir am gydymffurfiaeth sydd yn wahanol i'r cydymffurfiaeth y sonnir amdano ym mhwyntiau 2 a 4 (adran 71(2) o'r Mesur). Mi fyddai'n fuddiol i wneud hyn yn fwy clir i'r darllenwr.	Dim newid. Adran gyflwyniadol yw hon, fel uchod.
3.3	Troednodyn 5	Mae'r troednodyn yn awgrymu fod y Comisiynydd yn rheoleiddiwr perthnasol at ddibenion y Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddio 2006. Gall hyn fod yn ddryslyd i ddarllenwyr gan fod paragraff 2.6 eisoes yn ei gwneud hi'n glir bod y Comisiynydd yn reoleiddiwr. Oes angen cynnwys y troednodyn yma?	Dim newid. Mae'n gywir fel ag y mae.
3.4	3.4	Mi fyddai cynnwys y meini prawf penodol neu esboniad ohonynt yn ddefnyddiol.	Dileu pob sylw at feini prawf. Dim ond y meini prawf yn y Mesur gaiff eu harfer gan y

			Comisiynydd.
3.5	3.9	A fyddai defnyddio ‘arfer swyddogaethau ‘ yn well na ‘weithredu’r polisi’ yma?	Cytuno. Wedi newid.
3.6	3.10	Efallai y byddai’n fuddiol i gyfeirio at gyhoeddi penderfyniadau yma.	Wedi gwneud.
3.7	4.1	Byddai cynnwys esboniad o adran 93 yn help i’r darllenwr lleyg. A oes angen cynnwys y geiriau ‘er mwyn atal y methiant hwnnw rhag parhau neu gael ei ailadrodd’ yma gan y gellid dadlau mai adrannau 79 a 80 yw’r arfau i atal methiant/peidio ailadrodd (oherwydd penawdau y Mesur).	Dim newid. Bydd cyhoeddiad hawdd ei ddarllen am drefn gwyno Comisiynydd y Gymraeg yn manylu ar y broses gwyno maes o law.
3.8	4.6 a 4.7	Nid yw’r ddau baragraff yma yn adlewyrchu’r ffaith y gall person fod yn gweithredu ar ran y person sydd wedi ei effeithio yn uniongyrchol.	Wedi newid.
3.9	4.13	Byddai’n ddefnyddiol egluro beth a ystyrir i fod yn afresymol. Gweler hefyd ein sylw isod (rhif 3.15) ynglŷn â’r Rhestr termau.	Dim newid. Bydd y Comisiynydd yn tafoli pob achos yn unigol ac yn unol ag egwyddorion *Wednesbury* . O ganlyniad nid oes chwant i gynnig enghraifft.
3.10	5.3	A fyddai’n werth cyfeirio at adroddiadau blynyddol ac unrhyw wybodaeth arall sy’n rhaid eu darparu (yn unol a’r Safonau y mae’n ofynnol i berson gydymffurfio a hwy) yn y fan yma?	Wedi addasu.
3.11	6.6	Nid yw’r paragraff yn ei gwneud hi’n glir mae’r Comisiynydd sydd yn rhoi’r fath hysbysiad.	Wedi addasu.

3.12	6.7 a Troednodyn 15	Noder, er bod gyfeiriad yma i polisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 Comisiynydd y Gymraeg nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwiri na chymeradwyo y polisi yma fel rhan o'r broses o gymeradwyo y Polisi Gorfodi.	Cydnabod y sylw.
3.13	7.2	A fyddai'n fuddiol dweud ym mharagraff 7.2 y bydd yr hysbysiad dyfarnu yn cynnwys y rhesymau am y penderfyniad i beidio a gweithredu / rhoi argymhellion / cymryd gam gorfodi / rhoi cyngor / ceisio ymrwymo i gytundeb setlo?	Dim am fanylu i'r graddau hwn ar yr amrediad penderfyniadau posibl.
3.14	10.3 a 10.4	Beth a olygir gan 'amlygu' yn y fan hyn. Er enghraifft a fydd y Comisiynydd yn trafod gyda'r person perthnasol cyn gwneud cais i'r llys sirol ai peidio?	Wedi gwneud y testun yn fwy eglur.
3.15	Rhestr termau – Cwynion gwacsaw a blinderus	Gweler ein sylw yn rhif 3.9 uchod. Efallai y byddai'n well ehangu ar baragraff 4.13 yn hytrach nag yma.	Gadael fel ag y mae am y rhesymau a nodwyd eisoes.
3.16	Rhestr termau – Cwyn statudol	Ni ddefnyddir y term 'cwyn statudol' yn y ddogfen, dim ond 'cwyn'.	Dileu y gair statudol.
3.17	Rhestr termau – Diwrnod gosod	Efallai y byddai'n ddefnyddiol i gyfeirio at y ffaith mai mewn Hysbysiad Cydymffurfio y pennir y diwrnod(au) yma.	Wedi gwneud.
3.18	Rhestr termau - Safonau	Yr arfer yw cyfeirio at 'categorïau o safonau' yn hytrach na meysydd.	Wedi defnyddio'r gair 'dosbarth' fel yn y Mesur.
3.19	Gweithdrefn gwyno	Efallai y byddai'n fuddiol cyfeirio at y ffaith y bydd copi o'ch gweithdrefn gwyno ar gael yn eich	Amharod i wneud hyn yn y rhestr termau.

		swyddfeydd yn unol ag adran 14(4) o’r Mesur.	